# Datganiad o Ddiben

| Ynghylch y darparwr | |
|---|---|
| **Darparwr y gwasanaeth** | Cyngor Bro Morgannwg |
| **Unigolyn cyfrifol** | Marijke Jenkins |
| **Rheolwr y gwasanaeth** | Helen Manley |
| **Enw'r gwasanaeth** | Tŷ Dyfan |
| **Cyfeiriad y gwasanaeth** | St Brides Way<br>Y Barri<br>CF63 1DU<br>Ffôn: 01446 736086<br>E-bost: tydyfan@bromorgannwg.gov.uk |

## Disgrifiad o leoliad y gwasanaeth

Mae Tŷ Dyfan yn gartref preswyl deulawr pwrpasol ar gyfer pobl hŷn sydd wedi'i leoli ar St Brides Way. Mae wedi ei leoli yng nghanol ardal breswyl fawr sefydledig ar gyrion Tregatwg, ger ardal Colcot yn y Barri. Ceir lawnt o'i flaen, gyda choed aeddfed ar ffurf math o berllan.

Gellir cyrraedd Tŷ Dyfan yn hawdd ar y ffordd ac mae trafnidiaeth gyhoeddus gyda safle bws tua 25 llath o'r drws ffrynt. Ceir canolfan gymunedol, fferyllfa a siop leol nepell i ffwrdd.

## Ynghylch y gwasanaeth a ddarperir

**Yr amrediad o anghenion y gallwn eu cynorthwyo**

Mae gan Tŷ Dyfan 27 o ystafelloedd gwely sengl ar draws 3 uned; 'Y Bae', 'Yr Ynys' a 'Y Knap'.
Darpara'r cartref lety, gofal a chymorth i:

- Pobl hŷn fregus dros 60 oed
- Pobl hŷn dros 60 oed sy'n byw gyda Dementia
- Pobl hŷn dros 60 oed sydd ag Anabledd Dysgu

- Pobl hŷn dros 60 oed sy'n byw gyda Salwch Meddwl

**Darperir gwasanaeth tymor hirach a gwasanaeth seibiant ar Uned y Knap ac Uned yr Ynys, ac mae cyfleuster ail-alluogi wedi'i leoli ar uned y Bae ar y llawr cyntaf.**

Nid yw Tŷ Dyfan yn darparu Gofal Nyrsio, ond mae gan breswylwyr fynediad at wasanaethau iechyd cymunedol fel Meddyg Teulu, Deintydd a Ffisiotherapyddion Deintydd, Optegydd, Ciropodydd, Nyrs Ardal a Gwasanaethau Cymorth Seiciatrig Cymunedol a Dementia.

Mae'r gwasanaeth a ddarperir yn seiliedig ar yr angen a'r dewisiadau a aseswyd ac mae'n seiliedig ar werth, yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau, ac mae'n cynnwys:

- Cymorth i roi meddyginiaeth ragnodedig
- Cymorth gyda gofal personol
- Cymorth i gynnal diddordebau personol a datblygu rhai newydd
- Cymorth i gael mynediad at weithgareddau hamdden ac adloniant
- Cymorth i gael mynediad at gyfleusterau cymunedol
- Cymorth i gael mynediad at wasanaethau iechyd cymunedol
- Cymorth i ddatblygu a chynnal perthynas
- Cymorth i gynnal a chynyddu annibyniaeth
- Cymorth i sicrhau bod anghenion ysbrydol a diwylliannol yn cael eu diwallu.

| | |
|---|---|
| **Ystod oedran y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth** | Mae Tŷ Dyfan yn darparu gwasanaeth i bobl dros 60 oed |
| **Uchafswm capasiti** | Mae gan Tŷ Dyfan 27 o ystafelloedd gwely sengl. |

## Taliadau a ffioedd:

Ni fydd taliadau gofal a chymorth yn fwy na'r cyfraddau safonol y cytunir arnynt yn flynyddol gan Gyngor Bro Morgannwg. Penderfynir ar gyfraniad y preswylydd trwy asesiad ariannol, ond yr uchafswm tâl ym mlwyddyn ariannol 2024 - 2025 yw £988.12 yr wythnos.

Nid yw costau gofal a chymorth yn cynnwys cost y triniwr gwallt sy'n ymweld, na'r gwasanaethau a ddarperir gan weithwyr proffesiynol allanol fel ciropodydd, deintydd ac optegydd.

Gall preswylwyr gyfrannu at gost teithiau dydd.

Mae'r gwasanaeth ail-alluogi am ddim am hyd at 6 wythnos.

DoDd Tŷ Dyfan Adolygwyd Ebrill 2018/Mehefin 2018/Tachwedd 2018/Ebrill 2019/ Ebrill 2020/ Ebrill 2021/ Mai 2022/Ebrill 2023/Ionawr 2024/Mawrth 2024

## Sut y darperir y gwasanaeth:

**<u>Derbyn, Cyfnod Treialu a Therfynu</u>**

**<u>Tymor Hir a Seibiant:</u>**

Mae'r rhan fwyaf o dderbyniadau yn dilyn atgyfeiriad gan Weithiwr Cymdeithasol a fydd yn darparu gwybodaeth hanfodol. Mae hyn yn cynnwys asesiad cynhwysfawr, cynllun gofal a chymorth ac asesiad risg.

Os nad oes unrhyw weithiwr cymdeithasol yn rhan o'r broses, a bod derbyniad yn dilyn hunan-atgyfeiriad, gall Tŷ Dyfan ystyried derbyn, a bydd yn seilio'r penderfyniad i gynnig lleoliad ai peidio ar ganlyniad asesiad anghenion y darparwr.

Cynhelir asesiad anghenion y darparwr gyda'r darpar breswylydd, a/neu os yw'n briodol gyda'u perthynas agosaf / cynrychiolydd a gweithwyr proffesiynol. Gwahoddir y darpar breswylydd i dreulio'r diwrnod yn Nhŷ Dyfan a chael cinio. O arsylwi a thrafod gyda'r preswylydd a/neu eu cynrychiolwyr, bydd hanes bywyd, dewisiadau, anghenion, dewisiadau, canlyniadau a risgiau cysylltiedig yr unigolyn yn cael eu penderfynu a bydd yn sail i'r Cynllun Personol a'r Asesiadau Risg a gaiff eu creu cyn eu derbyn, ac a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae Tŷ Dyfan yn cadw'r hawl i wrthod derbyniad os tybir nad oes gan y cartref y gymysgedd neu'r adnoddau sgiliau angenrheidiol i ddiwallu anghenion asesedig yr unigolyn.

<u>Derbyn Brys:</u>

Y cyswllt cyntaf fydd y Gweithiwr Cymdeithasol, Canolfan Gyswllt a Gwybodaeth Bro Morgannwg neu'r Tîm Dyletswydd Brys.

Mae Tŷ Dyfan angen yr holl wybodaeth hanfodol sydd ar gael i'r gweithiwr cymdeithasol. O arsylwi a thrafod gyda'r preswylydd a/neu eu cynrychiolwyr, bydd hanes bywyd, dewisiadau, anghenion, dewisiadau, canlyniadau a risgiau cysylltiedig yr unigolyn yn cael eu penderfynu a bydd yn sail i'r cynllun personol cychwynnol ac asesiad risg a gaiff eu cwblhau o fewn 24 awr o'r derbyniad.

Lle mae amgylchiadau wedi atal cwblhau asesiad gweithiwr cymdeithasol cyn lleoli, mae'n rhaid i'r gweithiwr cymdeithasol asesu'r cleient yn llawn a darparu cynllun gofal a chymorth o fewn 48 awr ar ôl derbyniad brys. Yn achos derbyniad yn ystod y penwythnos neu ŵyl y banc, caiff y cyfnod hwn ei ymestyn i 96 awr. Ar ôl derbyn y cynllun asesu a gofal a chymorth gweithiwr cymdeithasol bydd Tŷ Dyfan yn adolygu ac yn diweddaru'r Cynllun Personol cychwynnol a'r asesiad risg fel y bo'n briodol.

Pan fo'r lleoliad brys yn ymestyn y tu hwnt i 5 diwrnod, trefnir a mynychir cyfarfod

adolygu ffurfiol gan y Gweithiwr Cymdeithasol, Rheolwr Tŷ Dyfan neu'r Dirprwy Reolwr, y cleient a/neu eu cynrychiolydd i bennu addasrwydd y lleoliad a'r trefniadau ar gyfer y dyfodol. Bydd Tŷ Dyfan yn adolygu ac yn diweddaru'r Cynllun Personol a'r Asesiad Risg fel y bo'n briodol.

Mae'r cartref yn cadw'r hawl i beidio ag ymestyn y lleoliad os nad yw'r gofal a ddarperir yn briodol i anghenion y cleient, neu os yw'r lleoliad yn cael effaith andwyol ar lesiant eraill.

Nid yw lleoliad brys yn ymrwymo'r cleient i drefniant tymor hwy ac nid yw'n awgrymu ychwaith yr hawl i'r cleient gael aros.

Cyfnod Treialu:

Mae gan breswylwyr sydd newydd eu derbyn bedair wythnos i benderfynu ai Tŷ Dyfan yw’r lle yr hoffent fyw ynddo yn y tymor hwy. Ar ôl y cyfnod hwn, gofynnir i'r preswylydd neu ei gynrychiolydd lofnodi'r telerau ac amodau, ac o hynny bydd angen rhybudd mis i ddod â'r trefniant i ben.

Hefyd, mae’r mis cyntaf hwn yn rhoi cyfle i'r staff ddod i adnabod y preswylydd. O arsylwi a thrafod gyda'r preswylydd a/neu eu cynrychiolwyr, pennir hanes bywyd, dewisiadau, anghenion, dewisiadau, canlyniadau a risgiau cysylltiedig yr unigolyn. Bydd y wybodaeth hon yn llywio'r Cynllun Personol a'r Asesiadau Risg ymhellach, a byddant yn cael eu hadolygu'n gyson yn ystod y cyfnod hwn.

Yn ystod y cyfnod treialu, mae Tŷ Dyfan yn cadw'r hawl i beidio ag ymestyn y lleoliad os yw gwneud hynny'n peri risg i'r unigolyn neu i eraill neu os tybir nad oes gan Tŷ Dyfan y gymysgedd neu'r adnoddau angenrheidiol i sicrhau y gellir diwallu anghenion yr unigolyn.

Terfyniad:

Unwaith y bo’r Telerau ac Amodau wedi'u derbyn, mae'n ofynnol i breswylwyr roi rhybudd o fis oni bai y penderfynir na ellir diwallu eu hanghenion bellach yn Nhŷ Dyfan a bod angen eu trosglwyddo i gyfleuster arall. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd Tŷ Dyfan yn cau'r gwely ar ddiwrnod y trosglwyddo neu ar ddiwrnod yr hysbysiad os gwneir penderfyniad yn yr ysbyty. Bydd yr un telerau yn berthnasol yn dilyn marwolaeth preswylydd.

Bydd eiddo personol yn cael ei storio yn ystafell wely'r preswylydd am hyd at 1 wythnos yn rhad ac am ddim, ac ar ôl hynny bydd yr eiddo'n cael ei bacio a'i storio'n ofalus am wythnos arall, ac ar ôl hynny byddwn yn ei waredu oni bai y ceir cytundeb arall gyda'r rheolwr.

Uned Bay (Ailalluogi)

Ar gyfer derbyn o'r ysbyty:
Y cyswllt cyntaf fydd yr ysbyty sy'n atgyfeirio i Dîm Adnoddau Cymunedol Bro Morgannwg (VCRS) ac yn dilyn eu proses atgyfeirio. Bydd y tîm VCRS yn cysylltu â thîm y ward yn uniongyrchol i gasglu rhagor o wybodaeth ac yn trefnu asesiad sgrinio wyneb yn wyneb o'r unigolyn a nodwyd ac yn creu Cynllun Personol.

Ar gyfer derbyn o'r gymuned:

Gellir trefnu mynediad o'r gymuned i atal derbyniadau diangen i'r ysbyty, a gall meddygon teulu wneud atgyfeiriad i Dîm Adnoddau Cymunedol Bro Morgannwg (VCRS). Fel arall, gellir ystyried bod derbyniad yn ddilyniant addas o'r gwasanaeth ail-alluogi cartref. Bydd tîm VCRS yn casglu gwybodaeth bellach ac yn trefnu asesiad sgrinio wyneb yn wyneb o'r unigolyn a nodwyd, ac yn creu Cynllun Personol.

Os asesir bod y person yn briodol ar gyfer ei dderbyn i'r Uned Ail-alluogi, bydd y tîm VCRS yn cysylltu â'r timau/ gwasanaethau priodol i drefnu mynediad cyn gynted â phosibl.

Bydd y Rheolwr Cofrestredig yn Nhŷ Dyfan yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a yw'r cartref yn gallu cwrdd ag anghenion yr unigolyn/ derbyn y person i'r uned ac mae'r cartref yn cadw'r hawl i wrthod derbyniad os tybir nad oes gan y cartref y gymysgedd sgiliau angenrheidiol neu adnoddau i sicrhau y gellir diwallu anghenion yr unigolyn.

Meini prawf ar gyfer derbyn i'r Uned Ailalluogi:

- Oedolion sy'n byw ym Mro Morgannwg
- 60 oed a throsodd
- Yn feddygol sefydlog i gael ei ryddhau o ofal aciwt, ond sydd angen asesiad therapi ychwanegol ac ymyrraeth mewn amgylchedd cefnogol
- Yn cael budd o gyfnod o ail-alluogi yn dilyn salwch neu lawdriniaeth a chyda photensial i wella eu hannibyniaeth weithredol
- Mae gan y person y cymhelliant a'r gallu i weithio tuag at amcanion a nodau eu harhosiad
- Bydd gan y person lefel gwybyddiaeth a asesir fel un sy'n briodol ar gyfer cymryd rhan yn y rhaglen
- Bydd y person yn gallu symud gyda chymorth cerdded heb fawr ddim goruchwyliaeth / yn annibynnol
- Bydd y person yn gallu trosglwyddo heb fawr o gymorth / yn annibynnol
- Rhaid i'r person gydsynio i gael ei dderbyn i'r Uned Ailalluogi a chytuno â'r telerau ac amodau

Meini Prawf Gwahardd Ailalluogi:

- Aseswyd bod gan y person anghenion gofal preswyl tymor hir / pecyn gofal tymor hir
- Mae'r person dan 60 oed

- Mae gan yr unigolyn broblemau iechyd meddwl sylfaenol / problemau ymddygiad sylweddol
- Mae angen darpariaeth gwasanaeth arbenigol ar yr unigolyn y tu allan i gofrestru'r Uned Ailalluogi h.y. gofal nyrsio, gofal dementia sydd angen uned dementia arbenigol, neu gydag ymddygiad heriol
- Y rhai ar lwybr diwedd oes
- Person sydd angen gofal seibiant yn unig
- Trigolion nad ydynt yn byw ym Mro Morgannwg
- Cyn ei dderbyn, mae'r person yn sâl iawn ac mae arno angen cymorth meddygol
- Mae'r person yn disgwyl cwblhau gwaith grant / addasiadau a fydd yn cymryd mwy na 6 wythnos

## Safon y gofal a'r gefnogaeth

Ein nod a'n hamcan yw gwella profiad bywyd ein preswylwyr a'u llesiant cyffredinol trwy ddarparu gwasanaeth o ansawdd mewn amgylchedd diogel a chartrefol, gyda gofal a chymorth sy'n seiliedig ar werth, yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac sydd fwyaf priodol i'r unigolyn.

Yr Elfennau Gwaelodol

- Ffocws ar y Preswylydd a Chanlyniadau

O arsylwi a thrafod gyda'r preswylydd a/neu eu cynrychiolwyr, bydd hanes bywyd, dewisiadau, anghenion, dewisiadau, canlyniadau a risgiau cysylltiedig yr unigolyn yn cael eu penderfynu**.** Bydd y wybodaeth hon yn sail i'r Cynllun Personol a'r Asesiadau Risg a fydd yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Pennir y gwasanaeth a ddarparwn gan angen, gallu, dyhead a chanlyniadau dewisol y preswylydd. Rydym yn wyliadwrus i sicrhau bod ein cyfleusterau, ein hadnoddau, ein polisïau a'n gweithgareddau yn cefnogi darparu gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac ar ganlyniadau.

- Addas i'r Diben

Rydym wedi ymrwymo i gyflawni ein nod a'n hamcan penodol ac rydym yn croesawu craffu gan yr holl randdeiliaid a chyrff proffesiynol a rheoleiddiol.

- Bod yn Gynhwysfawr

Ein nod yw darparu gwasanaeth cynhwysfawr a gweithio mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid, gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau priodol eraill i sicrhau bod ein preswylwyr yn derbyn gwasanaeth cyfannol.

- Diwallu Anghenion a Aseswyd

Mae'r gofal a ddarparwn yn seiliedig ar asesiad trylwyr o anghenion ac adolygiad systematig a pharhaus o'r gofal a ddarparwn i bob preswylydd. Fel lleiafswm, mae'r Cynlluniau Personol unigol a'r Asesiadau Risg o breswylwyr tymor hir yn cael eu hadolygu'n fisol. Lle bo'n briodol, a chyda chaniatâd y preswylydd, gwahoddir partïon â diddordeb yn rheolaidd i fynychu cyfarfodydd adolygu. Adolygir cynlluniau cleientiaid seibiant a chleientiaid brys a dderbyniwyd ar ôl argyfwng yn ystod eu harhosiad.

- Trosolwg o Reolaeth, Diogelwch, Effeithiolrwydd ac Ansawdd Gwasanaethau

Yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau a Reoleiddir (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 a chanllawiau statudol, mae'r Unigolyn Cyfrifol yn monitro ansawdd y gofal a'r cymorth yn ystod ymweliadau tri misol.

Cyhoeddir yr ymweliadau ymlaen llaw a gwahoddir rhanddeiliaid i gwrdd â'r Unigolyn Cyfrifol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ystyried barn rhanddeiliaid ac yn archwilio ystod o gofnodion, gan gynnwys:

- Cofnodion digwyddiadau a damweiniau
- Cofnodion Iechyd a Diogelwch
- Cofnodion cwympo
- Cofnodion ac adroddiadau diogelu
- Cofnodion Meddyginiaeth / Adroddiadau Gwallau
- Hysbysiadau Rheoliad 60
- Cofnodion Cwynion a Chanmoliaeth a Chwythu'r Chwiban
- Cofnodion staff
- Ffeiliau personol cleientiaid
- Adroddiadau gan reoleiddwyr

Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn dadansoddi'r canfyddiadau ac yn argymell camau gweithredu i wella darpariaeth gwasanaeth ac yn adrodd ar y canfyddiadau a'r argymhellion mewn adroddiadau dwywaith y flwyddyn a rennir gyda chynrychiolwyr perthnasol y Cyngor (Darparwr).

- Bydd Swyddog Sicrhau Ansawdd a Pholisi yr Awdurdod Lleol hefyd yn cynnal ymarfer sicrhau ansawdd ddwywaith y flwyddyn, a chyflwynir y canfyddiadau, ynghyd â chanfyddiadau'r ymweliadau, mewn adroddiad Sicrwydd Ansawdd blynyddol sy'n cael ei rannu ag Arolygiaeth Gofal Cymru a chynrychiolwyr perthnasol y Cyngor (Darparwr).

- Mae Arolygiaeth Gofal Cymru a Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yn archwilio'r cartref yn flynyddol. Mae adroddiadau dilynol a sgoriau bwyd ar gael yn Tŷ Dyfan.

- Adolygu'r Datganiad o Ddiben

Rydym yn adolygu'r ddogfen hon yn rheolaidd ac yn croesawu mewnbwn gan randdeiliaid.

**Hawliau:**

Y Dewis o Gartref:

- Rydym yn sicrhau bod pobl yn gallu gwneud penderfyniadau gwybodus am eu trefniadau byw arfaethedig trwy ddarparu gwybodaeth fanwl am Tŷ Dyfan mewn datganiad o ddiben ac yn y canllaw defnyddwyr gwasanaeth.
- Rydym yn darparu telerau ac amodau i bob preswylydd sy'n nodi manylion ein perthynas.
- Rydym yn sicrhau bod anghenion darpar breswylwyr yn cael eu hasesu'n arbenigol cyn cymryd penderfyniad ar dderbyniad.
- Rydym yn cynnig ymweliadau prawf i ddarpar breswylwyr ac yn osgoi derbyniadau heb eu cynllunio ac eithrio mewn achosion brys.
- Nid yw lleoliad brys yn ymrwymo'r cleient i drefniant tymor hwy ac nid yw'n awgrymu ychwaith hawl i'r cleient gael aros.

Annibyniaeth:

- Ein nod yw ymarfer mewn diwylliant sy'n canolbwyntio ar allu ac yn manteisio i'r eithaf ar y cyfle ar gyfer hunanofal, rhyngweithio annibynnol ag eraill a chyflawni tasgau byw bob dydd yn annibynnol.
- Rydym yn annog ac yn helpu preswylwyr i gymryd risgiau rhesymol ac ystyriol.
- Rydym yn sicrhau bod gan breswylwyr Gynllun Personol unigol sy'n manylu ar sut y maent yn dymuno bodloni canlyniadau a nodwyd.
- Byddwn yn cynnwys cleientiaid a/neu eu cynrychiolwyr wrth gynllunio, dyfeisio ac adolygu eu Cynllun Personol.
- Byddwn yn hyrwyddo posibiliadau i breswylwyr gadw a sefydlu cysylltiadau y tu hwnt i'r cartref ac yn y gymuned leol.
- Rydym yn gweithio gyda gofalwyr sylfaenol, perthnasau a ffrindiau i feithrin perthnasoedd a darparu parhad gofal a ffordd o fyw.

Preifatrwydd:

- Rydym yn cynnig ystafell wely breifat gyda chyfleuster y gellir ei gloi.
- Rydym yn rhoi cymorth mewn sefyllfaoedd personol mor synhwyrol a sensitif ag sy'n bosibl.
- Rydym yn sicrhau bod preswylwyr yn gallu cloi ystafelloedd ymolchi, toiledau ac ystafelloedd gwely.
- Rydym yn gwarantu preifatrwydd preswylwyr wrth ddefnyddio'r ffôn, agor a

darllen eu post ac wrth dreulio amser gyda ffrindiau, perthnasau neu eiriolwyr.
- Mae gan breswylwyr ddefnydd o ffôn symudol i'w defnyddio ar unrhyw adeg y mae angen iddynt wneud neu dderbyn galwadau ffôn preifat; gallant hefyd ddefnyddio'r ffôn swyddfa. Rhoddir cyfle iddynt hefyd osod llinell ffôn breifat os dymunir.
- Rhoddir y post i breswylwyr ym mhreifatrwydd eu hystafell eu hunain a dim ond os gofynnir amdano y caiff llythyrau eu darllen gan staff.
- Anogir preswylwyr i gyfathrebu â ffrindiau, perthnasau ac eiriolwyr a'u derbyn yng nghyfforddusrwydd ardal yr ymwelydd neu eu hystafell wely.
- Bydd data a gwybodaeth bersonol yn cael eu trin yn gwbl gyfrinachol yn amodol ar ofynion Cofrestru ac Arolygu. Diogelir Gwybodaeth a Data yn briodol a bydd hygyrchedd yn cydymffurfio â'r rheoliadau Diogelu Data cyfredol. Cedwir yr holl wybodaeth sydd gennym am unigolion am gyfnod penodol o amser yn unol â pholisïau a gweithdrefnau cadw'r Cyngor. Mae gan breswylwyr yr hawl i gael mynediad i'w ffeiliau ar unrhyw adeg.
- Mae pob aelod o staff yn cael eu hyfforddi yn egwyddorion cyfrinachedd a diogelu data, ac maent yn cynnal y rhain.

Urddas:

- Rydym yn trin pob preswylydd fel unigolyn gwerthfawr, a chyda pharch.
- Byddwn yn sicrhau urddas preswylwyr sydd angen cymorth gyda thasgau personol fel gwisgo, mynd i'r baddon, a gofal ymataliaeth.
- Rydym yn sicrhau bod gofal y preswylwyr yn adlewyrchu eu dymuniadau, sy'n cael eu pennu trwy asesiad, hanes bywyd a chyfathrebu parhaus.
- Rydym yn cynorthwyo preswylwyr i gynnal eu hymddangosiad personol a rhoi cymorth gydag eillio, gofalu am wallt a cholur fel y gallant gyflwyno eu hunain fel y dymunent.
- Rydym yn penodi aelodau staff sydd â diddordeb arbennig i rôl hyrwyddwyr dementia. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â chydweithwyr yn Nhŷ Dyfan a chartrefi eraill y Cyngor ac yn cyfrannu at lesiant cyffredinol preswylwyr sy'n byw gyda dementia.
- Ein nod yw lleihau unrhyw deimladau o annigonolrwydd, israddoldeb neu fregusrwydd.
- Rydym yn cyfarch preswylwyr ac yn eu cyflwyno i eraill yn unol â'u dewis.
- Rydym yn ymateb i ofynion a galwadau diwylliannol penodol.
- Rydym yn sicrhau bod y berthynas rhwng staff a phreswylwyr yn barchus, yn seiliedig ar ymddiriedaeth, ac yn briodol i berthynas gweithiwr â phreswylydd.
- Rydym yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau sy'n galluogi pob preswylydd i fynegi ei hun fel unigolyn unigryw ac i ddarparu ysgogiad.
- Rydym yn herio stigma a gwahaniaethu.

Diogelwch a Sicrwydd:

- Mae ein staff yn cael eu hyfforddi ac yn gweithio yn unol ag egwyddorion

rheoli risg cadarnhaol.

- Rydym yn darparu amgylchedd a strwythur cefnogi sy'n annog cymryd risgiau cadarnhaol a sicrhau bod preswylwyr yn gallu gwneud dewisiadau gwybodus cyn ymgymryd â gweithgareddau a allai eu rhoi mewn perygl.
- Rydym yn sicrhau bod yr amgylchedd ffisegol yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac yn rhydd o berygl diangen i bobl a'u heiddo.
- Rydym yn gweithredu system mynediad ac ymadael electronig i sicrhau diogelwch ein preswylwyr.
- Rydym yn gweithredu system alwadau sy'n sicrhau y gall preswylwyr alw am gymorth lle bynnag y maent yn Nhŷ Dyfan.
- Rydym yn gweithio yn unol â chanllawiau a deddfwriaeth berthnasol i sicrhau bod ein preswylwyr yn cael eu diogelu rhag pob math o gam-drin a bod ein holl aelodau staff yn derbyn hyfforddiant Diogelu.
- Rydym yn defnyddio proses Recriwtio Mwy Diogel y Cyngor i sicrhau addasrwydd ein staff. Mae hyn yn cynnwys cynnal tystlythyrau, a gwiriad DBS sy'n cael ei ailadrodd bob trydedd flwyddyn.
- Rydym yn sicrhau na fydd ein staff byth yn manteisio ar eu sefyllfa a’u bod yn cael eu hyfforddi a'u sgilio'n addas i ddarparu gwasanaethau mewn modd cyfrifol a phroffesiynol.
- Mae gan bob ystafell wely gyfleuster y gellir ei gloi; fel arall, gall preswylwyr roi eu harian a phethau bychain gwerthfawr yng nghist ddiogel/sêff Tŷ Dyfan.
- Rydym yn lleihau'r risg o gwympo trwy gwblhau asesiadau risg cwympo a chodi a chario.
- Mae'r holl staff gofal yn cwblhau hyfforddiant codi a chario diogel.
- Lle bo'n briodol, rydym yn darparu seibiant brys sy'n cynnig cyfle i deuluoedd a gweithwyr proffesiynol ddatrys sefyllfaoedd brys yn Nhŷ Dyfan.
- Rydym yn sicrhau bod hawl y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael ei gadarnhau a bod gan ein staff y sgiliau, y wybodaeth a'r gefnogaeth i weithio'n adeiladol ac yn ddiogel gyda phobl sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n herio gwasanaethau.
- Dim ond pan fo popeth arall yn methu y bydd ymyriad corfforol yn cael ei ddefnyddio i amddiffyn y person neu eraill rhag niwed sylweddol.  Ni chaiff ei ddefnyddio ond yn unol â chanllawiau'r Cynulliad Cenedlaethol ar ymyriadau corfforol cyfyngol, deddfwriaeth berthnasol a Pholisi a Gweithdrefn “Gweithio gyda Phobl sy'n Herio” y Cyngor.
- Caiff pob Cwymp, Digwyddiad a Damwain eu cofnodi a'u hymchwilio a, lle bo angen, eu hadrodd i gyrff perthnasol fel y Tîm Diogelu, gweithwyr proffesiynol Iechyd a Diogelwch a CIW.
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol eraill i sicrhau nad yw penderfyniadau'n cael eu gwneud ar eu pennau eu hunain ac rydym yn cyfeirio at y Tîm Amddifadu o Ryddid pan ystyrir bod angen gofal cyfyngol.
- Rydym yn sicrhau bod preswylwyr yn gallu cael gafael ar gymorth rheoli achosion ac Eiriolaeth annibynnol lle bo angen.

- Rydym yn darparu copi i breswylwyr o weithdrefn gwyno'r Cyngor a manylion cyswllt Arolygiaeth Gofal Cymru:

Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhydycar
Merthyr Tudful
CF48 1UZ
Rhif ffôn: 03007900126

**Hawliau Sifil:**

Hawliau

- Rydym yn sicrhau bod ein preswylwyr yn rhan o'r holl benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.
- Ein nod yw helpu ein preswylwyr i gynnal eu lle yn y gymdeithas fel dinasyddion sy'n cyfranogi'n llawn ac rydym yn annog presenoldeb cymunedol.
- Rydym yn sicrhau y gall preswylwyr gymryd rhan mewn etholiadau os dymunant.
- Rydym yn sicrhau y gall preswylwyr gael mynediad at wasanaethau cyhoeddus, fel llyfrgelloedd ac addysg.
- Byddwn yn galluogi ein preswylwyr i gyrchu a gwneud defnydd llawn o wasanaethau iechyd cymunedol ym mhob ffordd sy'n briodol i'w hanghenion meddygol, nyrsio a therapiwtig.
- Byddwn yn darparu gwybodaeth i sicrhau bod ein preswylwyr, eu ffrindiau, perthnasau neu gynrychiolwyr yn gwybod sut i gwyno am ein gwasanaethau neu roi adborth arnynt.
- Rydym yn cefnogi ein preswylwyr i gymryd rhan yn y gweithgareddau o'u dewis.
- Rydym yn sicrhau, pan na all preswylwyr fynegi eu barn a'u dymuniadau, fod ganddynt fynediad at gynrychiolydd priodol, fel eiriolwr annibynnol, POA neu IMCA.
- Rydym yn ymateb i anghenion ffydd ac yn cynorthwyo preswylwyr i fynychu gwasanaethau crefyddol o'u dewis.

Dewis

- Rydym yn darparu dewis o brydau a diodydd ac yn cynorthwyo preswylwyr i benderfynu drostynt eu hunain ble, pryd a gyda phwy maent yn bwyta ac yfed bwyd a diod o'u dewis.
- Gellir darparu prydau yn eu hystafell, ond anogir preswylwyr i fynychu'r cyfleuster bwyta ac i elwa ar y rhyngweithio cymdeithasol y mae hyn yn ei ddarparu.
- Rydym yn annog ac yn cynorthwyo preswylwyr i ymarfer dewisiadau bywyd fel

beth i'w wisgo, penderfynu beth i'w wneud, a phryd i'w wneud.

- Lle mae preswylwyr yn ei chael hi'n anodd mynegi eu hunain, rydym yn canfod eu dymuniadau a'u dewisiadau trwy asesu, cyfathrebu â ffrindiau a pherthnasau a hanes bywyd a sicrhau bod y gofal a ddarparwn yn adlewyrchu ein canfyddiadau.
- Rydym yn darparu gwasanaeth sy'n croesawu ac yn ymateb i amrywiaeth ddiwylliannol ac yn sicrhau bod aelodau'r staff yn cael eu hyfforddi yn egwyddorion Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010.
- Rydym yn annog preswylwyr i ddewis eu detholiad o unigolion sy'n rhoi gofal a chymorth personol iddynt.
- Anelwn at yr hyblygrwydd mwyaf yn nhrefniadau bywyd beunyddiol preswylwyr a pharchwn eu dymuniadau gyda golwg ar yr amser y dymunant godi a mynd i'w gwely.
- Rydym yn parchu ac yn derbyn dewisiadau neu ymddygiad ffordd o fyw unigol, anarferol neu ecsentrig.
- Rydym yn helpu preswylwyr i ddodrefnu a chyfarparu eu hystafelloedd yn eu harddull eu hunain a'u defnyddio fel y mynnant ar gyfer hamdden a difyrrwch.

<u>Cyflawniad</u>

- Rydym yn parchu amrywiaeth crefyddol, ethnig a diwylliannol a byddwn yn cynorthwyo cleient i gymryd rhan mewn arferion sy'n gysylltiedig â materion crefyddol neu ysbrydol ac i ddathlu penblwyddi a gwyliau ystyrlon.
- Rydym yn sicrhau ein bod yn cael gwybodaeth dda am ddymuniadau'r preswylydd, hanesion bywyd unigol a nodweddion personol. Rydym yn darparu amrywiaeth o weithgareddau hamdden a chymdeithasol sy'n adlewyrchu diddordebau preswylwyr.
- Rydym yn sicrhau na ruthrir prydau bwyd a'u bod yn brofiad cymdeithasol.
- Rydym yn helpu preswylwyr i gyflawni eu canlyniadau dewisol ac i gymryd rhan mewn gweithgareddau o'u dewis.
- Rydym yn sicrhau yr ymgynghorir â phreswylwyr ynghylch gweithrediad a'r modd y mae'r cartref yn cael ei redeg.
- Rydym yn sicrhau bod preswylwyr yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi trwy wrando ac ymateb yn brydlon i bryderon a cheisiadau.
- Byddwn yn helpu preswylwyr i gynnal cydberthnasau presennol a meithrin perthnasau newydd.
- Rydym yn parchu angen ein preswylwyr i fynegi eu rhywioldeb.
- Croesewir perthnasau a ffrindiau yn unol â dymuniadau'r preswylwyr.
- Rydym yn darparu'r cyfle a'r offer i gyfathrebu â ffrindiau a pherthnasau dros y ffôn a'r rhyngrwyd.
- Byddwn yn annog preswylwyr sydd ag anabledd i fanteisio ar offer a thechnoleg gynorthwyol.
- Ein nod yw ymateb yn sensitif ac yn briodol i anghenion a dymuniadau unigol preswylwyr sydd â salwch terfynol neu sy'n marw. Ein nod yw eu galluogi i dreulio eu dyddiau olaf yn Nhŷ Dyfan oni bai bod rhesymau meddygol cryf dros atal hyn.

Iechyd a Lles

Preswylwyr tymor hir a gofal seibiant:

- Byddwn yn pennu hanes bywyd y preswylydd.
- Byddwn yn dyrannu gweithiwr allweddol ar fynediad i'r cartref
- Gyda'r preswylydd, byddwn yn creu Cynllun Personol unigol a'r asesiadau risg cysylltiedig ac yn adolygu hyn yn rheolaidd a phan fo angen.
- Byddwn yn cysylltu â'r gweithiwr cymdeithasol i adolygu'r cynllun gofal yn flynyddol a phan fydd anghenion yn newid.
- Gyda chaniatâd y preswylydd, gwahoddir perthnasau / cynrychiolwyr i fynychu cyfarfodydd adolygu o bryd i'w gilydd

Pob preswylydd:

- Yn seiliedig ar asesiad trylwyr a chynllun gofal a chymorth y gweithiwr cymdeithasol a chyda'r preswylydd a/neu eu cynrychiolydd, rydym yn sefydlu canlyniadau dewisol ac yn creu ac yn adolygu Cynllun Personol unigol yn rheolaidd.
- Byddwn yn ceisio cyfarfod neu drefnu i weithwyr proffesiynol priodol gwrdd ag anghenion gofal iechyd pob preswylydd.
- Lle nad yw preswylwyr yn gallu neu'n anfodlon gweinyddu drostynt eu hunain, rydym yn sefydlu ac yn cynnal gweithdrefnau gofalus ar gyfer rhoi meddyginiaeth yn ddiogel.
- Rydym yn sicrhau bod aelodau'r staff wedi'u hyfforddi i drin a rhoi meddyginiaethau'n ddiogel a rhoi meddyginiaeth reoledig.
- Rydym yn sicrhau bod aelodau'r staff wedi'u hyfforddi mewn amddiffyn a diogelu oedolion, cymorth cyntaf sylfaenol, ymwybyddiaeth o ddementia, cyflyrau cronig a symud a thrin pobl yn ddiogel.
- Rydym yn cymryd camau i ddiogelu preifatrwydd ac urddas y preswylwyr ym mhob agwedd o ddarparu gofal iechyd a phersonol.
- Gwneir pob ymdrech i gynorthwyo'r preswylwyr i gadw cofrestriad gyda'u meddyg teulu eu hunain os mai dyma yw eu dewis, ond mae gan breswylwyr gyfle i gofrestru gydag unrhyw un o'r meddygfeydd lleol y mae gan Tŷ Dyfan berthynas waith dda â nhw.
- Mae gan y cartref optegydd, ciropodydd a deintydd sy’n ymweld.
- Rydym yn gofalu am ein preswylwyr yn sensitif pan fyddant â gwaeledd terfynol neu'n marw. Gall preswylwyr dreulio eu dyddiau olaf yn ein cartref oni bai bod rhesymau meddygol cryf dros atal hyn a byddwn yn eu cefnogi nhw a'u ffrindiau a'u perthnasau drwy gydol y broses.

Gweithgareddau Cymdeithasol ac Ysgogi

- Er mwyn darparu ysgogiad meddyliol a chorfforol, mae Tŷ Dyfan yn annog preswylwyr i gymryd rhan mewn rhaglen weithgareddau ddyddiol sy'n adlewyrchu diddordebau a fynegwyd. Dyma rai o'r gweithgareddau rydym yn eu cynnig:

Teithiau bws
Therapi atgoffa a cherddoriaeth
Sgitlau / Boccia
Canu
Gemau bwrdd
Celf a Chrefft
Paratoi bwyd
Bingo
Therapi harddwch - gwallt, ewinedd
Clwb ffilm
Ymarferion ymestyn
Teithiau cerdded lleol / teithiau bws
Clwb garddio
Defnyddio I Pad

## Anghenion cyfathrebu i bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth

Rydym yn sicrhau bod gan ein preswylwyr lais a'u bod yn gallu cyfleu eu hanghenion a'u dewisiadau. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd canolog cyfathrebu effeithiol â defnyddwyr gwasanaeth a'u teuluoedd / cynrychiolwyr a chanfyddir eu dull cyfathrebu dewisol trwy asesiad a'i gofnodi yn y cynllun darparu gwasanaeth.

Y brif iaith a siaredir yn Nhŷ Dyfan yw Saesneg, ond mae'r Cyngor yn darparu hyfforddiant iaith Gymraeg sylfaenol i staff ac mae Tŷ Dyfan yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, "Mwy na Geiriau" a'r "Cynnig Gweithredol". Ein nod yw lleihau rhwystrau mewn cyfathrebu a phan fydd angen, byddwn yn ennyn cefnogaeth gweithwyr proffesiynol eraill fel eiriolwyr, dehonglwyr a Therapyddion Iaith a Lleferydd.

## Rheolaeth a Threfniadau Staffio

<u>Strwythur Gweithredol:</u>

Rheolwr Gweithredol ac Unigolyn Cyfrifol:

Marijke Jenkins
d/o Cartref Porthceri
91 Salisbury Road
Y Barri
CF62 6PU

Ffôn: 01446 731106

Cymwysterau:

Diploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Breswyl i Oedolion)
Tystysgrif Lefel 5 mewn Hyfforddi a Mentora mewn Rheolaeth
Diploma Gwaith Cymdeithasol
Newid Diwylliant mewn Gofal Dementia - David Sheard (Dementia Care Matters)

Profiad:

Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Preswyl a Chydymffurfiaeth
Rheolwr Tîm Gwasanaethau Preswyl
Rheolwr Cofrestredig Lleoliadau Oedolion
Gweithiwr Lleoli Oedolion
Cydlynydd Ansawdd (Gofal Nyrsio)
Rheolwr Cofrestredig Tŷ Dyfan Preswyl Pobl Hŷn
Gweithiwr Cymdeithasol
Cynorthwy-ydd Gwaith Cymdeithasol
Cynorthwy-ydd Gofal
Nyrs Gyffredinol (Yr Iseldiroedd)

Y Rheolwr:

Helen Manley

Ffôn: 01446 739438

Wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru

Cymwysterau: QCF Lefel 4 a Lefel 5 Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Profiad:
Rheolwr Cartref Gofal 2014 -2017 Barclay Court
Rheolwr Cartrefi Gofal 2010 - 2014 Grŵp OWSL
Rheolwr Domestig 2002 - 2010 Cartref Gofal Cliff Haven

Y Dirprwy Reolwr:

Adina Muhammed

**Cofrestrwyd gyda Gofal Cymdeithasol Cymru**

**Cymwysterau: Lefel 5 Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

**Profiad:**

| |
|---|
| **Dirprwy Reolwr 2019 – 2023 Cartrefi Preswyl VOGC**<br>**Uwch Swyddog Gofal Rhyddhad 2016 - 2019 Cartrefi Preswyl VOGC**<br>**Cynorthwy-ydd Gofal 2013 - Tachwedd 2019 Cartref Preswyl Southway**<br><br>Gwyddom fod arweinyddiaeth y cartref yn hanfodol i'w holl weithrediadau.<br><br>I ddarparu arweinyddiaeth effeithiol, rydym yn gwneud y canlynol:<br>• Sicrhau fod y rheolwr cofrestredig yn gymwys ac yn brofiadol i ymgymryd â'r rôl.<br>• Anelu at ddull rheoli, sy'n creu awyrgylch agored, cadarnhaol a chynhwysol ac sy'n gydnaws â chyfathrebu effeithiol.<br>• Sicrhau monitro effeithiol o'r gwasanaethau a ddarperir.<br>• Rheoli'r rota yn effeithiol i sicrhau y darperir staff mewn niferoedd digonol a chyda'r gymysgedd berthnasol o sgiliau i ddiwallu anghenion preswylwyr.<br>• Rheoli materion y cartref yn unol â Pholisïau a Gweithdrefnau a Gofynion Deddfwriaethol a Safonau'r Cyngor.<br>• Gweithio i weithdrefnau cyfrifeg ac ariannol sy'n diogelu buddiannau preswylwyr.<br>• Cynnig cymorth priodol i breswylwyr wrth reoli eu cyllid personol.<br>• Sicrhau bod yr holl staff a gweithwyr gwirfoddol yn cael eu goruchwylio yn rheolaidd ac yn ofalus<br>• Sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei lledaenu'n effeithiol.<br>• Cadw cofnodion cyfredol a chywir ar bob agwedd o’r cartref a'i breswylwyr.<br>• Sicrhau bod iechyd, diogelwch a lles preswylwyr a staff yn cael eu hyrwyddo a'u diogelu.<br>• Sicrhau bod staff yn mynychu cyfarfodydd staff misol a hyfforddiant perthnasol ac yn cymryd rhan mewn ymarferion tân a gwacáu llorweddol.<br>• Sicrhau bod staff yn ymarfer proffesiynoldeb ac yn parchu hunaniaeth pob unigolyn.<br><br>Mae Rheolwr a Dirprwy Reolwr Tŷ Dyfan yn cydweithio i sicrhau bod y cartref yn cael ei reoli'n effeithiol. Pan fo angen, mae gan y rheolwyr fynediad at gefnogaeth y gweinyddwr cartrefi gofal preswyl. |

| | |
|---|---|
| Lefelau staffio | Mae Tŷ Dyfan yn cyflogi 20 aelod o staff gofal yn ogystal â nifer o gynorthwywyr gofal wrth gefn.<br><br>Mae staff gofal ar ddyletswydd 24 awr y dydd. Goruchwylir y tîm gan grŵp rheoli cymwys a phrofiadol sy'n cynnwys Rheolwr sydd wedi cofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru, a Dirprwy Reolwr.<br><br>Yr isafswm o staff gofal dydd ar ddyletswydd rhwng 6.45 AM a 21.00 PM yw 5. Rhwng 21.00 PM a 6.45 AM mae 4 aelod o staff gofal ar ddyletswydd. |

| | |
|---|---|
| | Mae Tŷ Dyfan yn cyflogi 12 aelod o staff arlwyo a chadw tŷ. Yn ystod y dydd mae cynorthwy-ydd golchi dillad, o leiaf 2 gynorthwy-ydd domestig, cogydd a chynorthwy-ydd cegin ar ddyletswydd. Mae'r cartref hefyd yn cyflogi tasgmon/ garddwr.<br><br>Rydym yn cymryd gofal mawr wrth recriwtio ein staff ac yn gweithio yn unol â Pholisi Recriwtio Diogelach y Cyngor, sy'n cynnwys cynnal tystlythyrau a gwiriad DBS ar adeg recriwtio, a gwiriad DBS pellach bob trydedd flwyddyn.<br><br>Rydym yn recriwtio pobl sydd â'r profiad, yr agwedd a'r gwerthoedd cywir ac yn darparu cyfnod sefydlu trylwyr. Rydym yn defnyddio'r un egwyddorion pan fo angen cyflogi staff asiantaeth. Mae'r Cyngor yn gweithio gydag asiantaeth recriwtio a ffefrir sy'n sicrhau ansawdd a chysondeb. Mae eu perfformiad a pherfformiad eu staff yn cael ei fonitro'n wythnosol a phan fo angen. |
| Staff arbenigol | Nid yw Tŷ Dyfan yn cyflogi staff arbenigol, ac nid yw'n darparu Gofal Nyrsio, ond mae gan breswylwyr fynediad at wasanaethau arbenigol yn y gymuned a ddarperir gan Feddyg Teulu, Lleferydd ac Iaith, Galwedigaethol a Ffisiotherapyddion, Deintydd, Optegydd, Ciropodydd, Nyrs Ardal a Gwasanaethau Seiciatrig Cymunedol a Chymorth Dementia. |
| Defnydd o staff yn y gwasanaeth | Mae Tŷ Dyfan yn sicrhau bod 5 aelod o staff gofal ar ddyletswydd rhwng 6.45 AM a 21.00 PM. Mae 4 aelod o staff gofal ar ddyletswydd rhwng 21.00 PM a 6.45 AM.<br><br>Asesir lefel dibyniaeth preswylydd wrth ei dderbyn ac yn cael ei adolygu'n rheolaidd. Os bernir bod y lefel dibyniaeth preswylwyr yn gasgliadol yn haeddu mwy o staff ar ddyletswydd, caiff aelodau staff ychwanegol eu dwyn ymlaen ar rota.<br><br>Ar yr achlysuron hynny lle nad yw'r rheolwr na'r dirprwy ar gael ac na all staff ddatrys anawsterau, gallant gael gafael ar reolwr, dirprwy reolwr neu uwch swyddog gofal mewn unrhyw un o'r tri chartref Cyngor arall. |

| | |
|---|---|
| | Mae'r rota rheoli 'ar draws cartrefi' yn sicrhau bod rheolwr bob amser ar gael i roi cyngor rhwng 8 AM ac 8 PM o ddydd Llun i ddydd Gwener a 10 AM tan 5 PM yn ystod penwythnosau. Mae rheolwyr Tŷ Dyfan yn rhan o'r rota hwn ac maent yn gweithio sifftiau amrywiol gan gynnwys sifft nos achlysurol.<br><br>Mae gan staff fynediad i rifau argyfwng y tu allan i oriau sy'n cynnwys niferoedd rheolwyr a Thîm Dyletswydd Brys Caerdydd a'r Fro.<br><br>Strwythur Trefniadol y Cartref<br>Rheolwr<br>↓<br>Dirprwy Reolwr<br>↓<br>Swyddogion Gofal, Cynorthwywyr Gofal, Staff Arlwyo a Domestig, Tasgmon |
| Trefniadau goruchwylio | Rydym yn cynnal goruchwyliaeth reolaidd yn unol â Pholisi Goruchwylio Cyngor Bro Morgannwg, ac yn galw cyfarfodydd tîm staff misol. |
| Hyfforddiant staff | Rydym yn sicrhau bod aelodau'r staff yn cronni'r wybodaeth a'r sgiliau angenrheidiol drwy ddarparu ystod eang o hyfforddiant, gan gynnwys:<br><br>• Dyfarniadau NVQ Lefel 2 a 3 a QCF<br>• Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith<br>• Trin, Lleoli a Symud Mwy Diogel<br>• Hyfforddiant cwympo<br>• Asesiad risg<br>• Egwyddorion Galluogi a Dulliau Therapiwtig<br>• Technoleg Gynorthwyol<br>• Amddiffyn Oedolion Bregus / Diogelu<br>• Amddiffyn Plant<br>• Hyfforddiant Cam-drin Domestig |

| | |
|---|---|
| | • Hylendid Bwyd<br>• Colled a Phrofedigaeth<br>• Cyfrinachedd a Diogelu Data<br>• Amddifadu o Ryddid a'r Ddeddf Galluedd Meddyliol<br>• Hyfforddiant Meddyginiaeth<br>• Cymorth Cyntaf<br>• Rheoli Heintiau<br>• Hyfforddiant Tân<br>• Yn ogystal â'r uchod, rydym yn darparu hyfforddiant arbenigol i ddiwallu anghenion unigol y preswylwyr gan gynnwys Dementia, Iechyd Meddwl / Adferiad, clefyd Parkinson ac Ymwybyddiaeth Strôc a rheoli ymddygiad heriol. |
| **Cyfleusterau a gwasanaethau** | |
| **Nifer o ystafelloedd sengl ac ystafelloedd a rennir** | 27 o ystafelloedd sengl, nid oes gan yr un gyfleusterau en suite |
| **Cyfleusterau** | Mae ystafelloedd gwely Tŷ Dyfan wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod a'r llawr cyntaf.<br><br>Ar y llawr gwaelod, mae nifer o lolfeydd/ ystafelloedd teledu cymunedol. Ar ben hynny mae ystafell â thema 'pili pala' sydd ar gael i ymwelwyr. Mae'r ystafell fwyta fawr hefyd yn lleoliad ar gyfer digwyddiadau adloniant. Mae gan y llawr cyntaf hefyd lolfa/ ystafell deledu gymunedol ac ardal ymwelwyr.<br><br>Ceir salon trin gwallt â chyfleusterau llawn ar y llawr gwaelod, lle darperir gwasanaeth wythnosol gan driniwr gwallt sy'n ymweld. Cyfrifoldeb y preswylydd yw talu am y gwasanaeth hwn.<br><br>Mae lifft i'r llawr cyntaf.<br><br>Mae'r cyfleuster ailalluogi 6 gwely ar gyfer pobl hŷn fregus wedi'i leoli ar uned y llawr cyntaf yn y Bae ac mae modd mynd ato drwy'r brif fynedfa a'r lifft neu risiau, ac ar gyfer yr unigolion hynny sy'n gallu defnyddio grisiau, gyda rheiliau llaw drwy fynedfa ddynodedig. Mae hyn hefyd yn rhoi mynediad i ofod |

| | |
|---|---|
| | cyfarfod/ymweld llawr daear sydd â ffitiadau da, gydag ardal cegin a thoiled.<br><br>Mae gan yr uned ailalluogi ystafell therapi gyda chyfleusterau golchi dillad, un ystafell fwyta gyffredin yn y lolfa gyda theledu, a setiau teledu mewn ystafelloedd gwely unigol. Mae ganddi un toiled cymunedol yn ogystal ag ystafell gawod ar wahân gyda thoiled a chyfleuster cegin gyda microdon, oergell rhewgell, tostiwr a thegell.<br><br>Mae Tŷ Dyfan yn darparu ystafelloedd sengl wedi'u haddurno'n dda gyda chyfleusterau ymolchi. Mae gan bob ystafell gyfleuster y gellir ei gloi ac maent wedi'u dodrefnu â chadair esmwyth, cist ddroriau, cwpwrdd dillad, gwely, cwpwrdd wrth ochr y gwely ac, os dymunir, comôd.<br><br>Er bod rhai ystafelloedd yn fwy o ran maint, mae'r ystafell gyfartalog yn mesur 9.6 metr sgwâr. Mae ystafelloedd yn Nhŷ Dyfan sy'n gallu lletya cyplau ar eu cais, ond nid yw'n ofynnol i breswylwyr rannu ystafell.<br><br>Mae’r ystafelloedd, coridorau ac ardaloedd cymunedol i gyd yn fawr, yn agored, a chyda ffitiadau da, ac mae ganddynt ardaloedd o ddiddordeb. Ceir rheiliau canllaw yn y coridorau i gynorthwyo symudedd. Mae gan bob ystafell, gan gynnwys lolfeydd, ystafelloedd ymolchi a thoiledau, system alwadau pan fo angen cymorth.<br><br>Mae pwynt erial teledu ym mhob ystafell wely ond ni ddarperir setiau teledu yn Unedau Knap a’r Ynys. Gall preswylwyr ddewis contractio â rhwydwaith cebl neu SKY, a gellir trefnu hyn, ond cyfrifoldeb y preswylydd fydd gwneud y taliadau cysylltiedig. Pe byddai preswylydd yn dymuno cael pwynt ffôn yn eu hystafell, cyfrifoldeb y preswylydd fydd hyn hefyd. Mae gan y cartref WIFI a ffôn symudol botwm mawr at ddefnydd preswylwyr yn unig.<br><br>Mae Tŷ Dyfan yn amgylchedd di-fwg. |
| **Cyfleusterau ystafelloedd ymolchi arbenigol** | Mae gan Tŷ Dyfan 2 ystafell ymolchi, y ddwy â theclynnau codi. Ceir ystafell gawod sy’n hygyrch i gadeiriau olwyn ar bob llawr, a hefyd mae gan yr uned ailalluogi ystafell gawod 'cerdded i mewn' gyda |

| | |
|---|---|
| | thoiled<br><br>Mae gan yr holl doiledau cymunedol reiliau cydio ac mae gan rai seddi uwch. Ceir un toiled ar bob llawr sy’n gwbl hygyrch i ddefnyddwyr cadeiriau olwyn. |
| **Offer arbenigol** | Mae gan Tŷ Dyfan ystod o gymhorthion symud / trosglwyddo / codi arbenigol megis proffil (gwelyau uchel / isel), teclyn codi symudol, 'Cricket' ac 'Elk'. Mae ein holl offer arbenigol yn cael ei wasanaethu yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. |
| **Trefniadau diogelwch ar waith a defnydd o deledu cylch cyfyng** | Mae Tŷ Dyfan yn gweithredu system mynediad ac ymadael electronig i sicrhau diogelwch ein preswylwyr. Nid ydym yn defnyddio teledu cylch cyfyng. |
| **Mynediad i ofod a chyfleusterau allanol yn y gwasanaeth hwn** | Mae gan Tŷ Dyfan faes parcio preifat o faint canolig ac ardal ardd gaeedig ddeniadol gyda mynediad gwastad y gall yr holl breswylwyr eu mwynhau. |

## Trefniadau Llywodraethu a Monitro Ansawdd

Llywodraethu:

Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Bro Morgannwg

↓

Pennaeth Gwasanaeth

↓

Rheolwr Gweithredol Gwasanaethau Preswyl a Chydymffurfiaeth

↓

Rheolwr

**Monitro Ansawdd:**

- Yn unol â Rheoliadau Gwasanaethau a Reoleiddir (Darparwyr Gwasanaeth ac Unigolion Cyfrifol) (Cymru) 2017 a chanllawiau statudol, mae'r Unigolyn Cyfrifol yn monitro ansawdd y gofal a'r cymorth yn ystod ymweliadau tri misol.
- Cyhoeddir yr ymweliadau ymlaen llaw a gwahoddir rhanddeiliaid i gwrdd â'r Unigolyn Cyfrifol yn ystod y cyfnod hwn. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ystyried

barn rhanddeiliaid ac yn archwilio ystod o gofnodion, gan gynnwys:

- Cofnodion digwyddiadau a damweiniau
- Cofnodion Iechyd a Diogelwch
- Cofnodion cwympo
- Cofnodion ac adroddiadau diogelu
- Cofnodion Meddyginiaeth / Adroddiadau Gwallau
- Hysbysiadau Rheoliad 60
- Cofnodion Cwynion a Chanmoliaeth a Chwythu'r Chwiban
- Cofnodion staff
- Ffeiliau personol cleientiaid
- Adroddiadau gan reoleiddwyr

Bydd yr Unigolyn Cyfrifol yn dadansoddi'r canfyddiadau ac yn argymell camau gweithredu i wella darpariaeth gwasanaeth ac yn adrodd ar y canfyddiadau a'r argymhellion mewn adroddiadau dwywaith y flwyddyn a rennir gyda chynrychiolwyr perthnasol y Cyngor (Darparwr).

Mae Swyddog Sicrhau Ansawdd a Pholisi yr Awdurdod Lleol hefyd yn cynnal ymarfer sicrhau ansawdd ddwywaith y flwyddyn, ac mae canfyddiadau hyn ynghyd â chanfyddiadau ymweliadau Rheoliad 80 yn cael eu cyflwyno mewn adroddiad Sicrhau Ansawdd blynyddol sy'n cael ei rannu gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a'r Cyngor perthnasol Cynrychiolwyr (Darparwr).

- Mae Arolygiaeth Gofal Cymru a Gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yn archwilio'r cartref yn flynyddol. Mae adroddiadau dilynol a sgoriau bwyd ar gael yn Tŷ Dyfan.

- Mae cyfarfodydd staff misol a goruchwyliaeth reolaidd yn sicrhau bod aelodau staff yn gallu rhannu eu barn a chyfrannu at ddatblygiad gwasanaeth.

- Cynhelir cyfarfodydd preswylwyr yn rheolaidd gan gynnig cyfle i rannu pryderon a chyfrannu at ddatblygiad gwasanaeth.

- Mae tîm Polisi a Sicrhau Ansawdd y Cyngor yn ymgymryd ag:

  - Ymgynghoriad Boddhad Blynyddol Defnyddwyr Gwasanaeth a Gofalwyr
  - Archwilio ffeiliau achos - Proses archwilio thematig yn seiliedig ar feysydd a nodwyd gan arolygiadau, adborth o'r ymgynghoriad a materion sy'n berthnasol i'r gwasanaethau cymdeithasol ar y pryd
  - Datblygu ac adolygu Polisïau, Gweithdrefnau a Chanllawiau Adrannol
  - Paratoi adroddiad Sicrwydd Ansawdd Blynyddol ar gyfer uwch reolwyr.

- Rhoddir copi o weithdrefn gwyno Bro Morgannwg i'r holl breswylwyr, sydd hefyd ar gael ar gais. Ymchwilir i bob cwyn yn unol â'r weithdrefn ac fe'u

| |
|---|
| cyfeirir at Swyddog Cwynion Bro Morgannwg sy'n adrodd yn wythnosol i uwch reolwyr. |